Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Llys Hywel**
**Stryd Y Farchnad**
**Hendy-gwyn Ar Daf**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0QB**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Llys Hywel

Lleolir Ysgol Gynradd Llys Hywel ym mhentref Hendygwyn yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg i'w disgyblion mewn dwy ffrwd. Mae 153 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 5 disgybl sydd o oed meithrin ac yn mynychu'n amser llawn. Mae 6 dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn mynychu'r adran Gymraeg a daw 23% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd.

Tros dreigl tair blynedd, tua 18% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn cyfateb i'r ganran genedlaethol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 19% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2013 a phenodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol.  Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn parchu eu cyfoedion ac oedolion.  Yn ystod eu cyfnod yno, mae llawer o'r disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg cadarn.  O ystyried eu mannau cychwyn, maent yn cyflawni'n gadarn wrth siarad a darllen.  Mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cyfathrebu Saesneg ond cyfyng yw'r cynnydd a wnânt yn eu medrau Cymraeg ail iaith.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu am eu disgyblion yn dda ac yn cynnig arweiniad a chymorth effeithiol iddyn nhw a'u rhieni.  Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen  ddatblygu eu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, mae safon y ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn anghyson.

Mewn amser byr, mae'r pennaeth wedi adnabod yr angen i wella agweddau o'r addysgu a'r cynllunio er mwyn codi safonau.  Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr gynlluniau newydd ar waith i gyflawni'r gwelliannau hyn, ond hyd yma, nid ydynt wedi gwreiddio'n llawn.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Datblygu rôl arweinwyr i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol tuag at ddatblygu cyfeiriad strategol yr ysgol

A2 Gwella ansawdd yr addysgu yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu

A3 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion

A4 Gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae medrau llythrennedd a rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn is na'r rhai a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran wrth gychwyn yn yr ysgol. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o'u mannau cychwyn. Mae rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau dysgu unigol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwyaf abl yn gwneud digon o gynnydd.

Mae medrau llafar a gwrando llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn synhwyrol mewn gwersi. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn siarad yn frwd am eu gwaith ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol wrth iddynt wneud arsylwadau aeddfed wrth greu llun o gyfnod y lleuad. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynegi eu syniadau yn glir ac yn gywir, er enghraifft wrth drafod 'a ddylai anifeiliaid gael eu cadw mewn sw?'. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau llafaredd llawer o ddisgyblion y ffrwd Gymraeg yn bwrpasol yn y ddwy iaith. Mae medrau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion y ffrwd Saesneg yn dda iawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod hwn, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn ailadrodd straeon yn hyderus yn y naill iaith neu'r llall. Maen nhw'n trafod eu hoff gymeriadau yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir gyda dealltwriaeth dda yn y ddwy iaith. Maent yn trafod prif ddigwyddiadau a chymeriadau yn llyfr 'Plentyn y Stryd', er enghraifft, yn aeddfed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn annibynnol, er mwyn ysgrifennu adroddiadau ysgrifenedig ar drychineb Aberfan, er enghraifft.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus yn y naill iaith neu'r llall. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn ysgrifennu brawddegau syml i ddisgrifio gwahanol arch-arwyr yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod hwn, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n dda mewn ystod addas o ffurfiau amrywiol, er enghraifft pan fyddant yn ailadrodd stori 'Serenola'. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith yn y ffrwd Gymraeg ac yn Saesneg yn y ffrwd Saesneg. Mae'r disgyblion yn dechrau defnyddio geirfa aeddfed ac yn cynnwys ffeithiau priodol i gefnogi eu hysgrifennu, er enghraifft wrth gynhyrchu taflen ffeithiol am y Frenhines Fictoria. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2, yn enwedig y disgyblion mwy abl, yn ysgrifennu i safon sy'n cyfateb i'w gallu mewn gwersi iaith nac ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn amrywio llawer yng nghyfnod allweddol 2.

Mae safon Cymraeg ail iaith rhan fwyaf y disgyblion yn briodol. Ar draws yr ysgol, mae llawer yn y ffrwd Saesneg yn ymateb i gyfarwyddiadau Cymraeg yn effeithiol.

Ychydig iawn o ddisgyblion Blwyddyn 6 sy'n cynnal sgwrs estynedig yn hyderus ac yn ymateb yn gywir i gwestiynau. Nid yw medrau ysgrifennu llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi datblygu digon a phrin y maent yn defnyddio'u medrau llafar y tu allan i sefyllfa ffurfiol y dosbarth. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen addas.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu datblygiad mathemategol. Mae ganddyn nhw fedrau rhif cryf, gafael briodol ar egwyddorion siapau, ac maent yn casglu data'n hyderus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio eu gwybodaeth am adio a thynnu'n hyderus wrth drin arian i brynu dillad yn y siop gwisg ffansi. Mae rhan fwyaf y disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn creu cronfa ddata syml o'u hoff anifeiliaid ac yn ei defnyddio'n briodol i gynhyrchu graff bar cywir. Yng nghyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am rif yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gasglu a chyflwyno data. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn datblygu eu gwybodaeth am bob maes o'r cwricwlwm mathemateg i ddyfnder addas nac yn cymhwyso eu medrau yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae medrau TGCh llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol wrth dynnu llun a recordio'u lleisiau. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith ar glybiau rygbi Cymreig. Maent yn dechrau defnyddio taenlenni'n addas er mwyn newid gramau i gilogramau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau TGCh yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt yn y maes hwn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus iawn yno oherwydd y gofal arbennig maent yn ei dderbyn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch tuag at y staff, a'i gilydd, ac maent yn hynod groesawgar i ymwelwyr. Cyfranna hyn yn gref tuag at ethos cyfeillgar a chynhwysol yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Trwy waith effeithiol y llysgenhadon gwych, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hawliau sydd ganddynt o fewn cymuned yr ysgol ac yn y byd ehangach ac maent yn eu trafod yn hyderus. Dangosa rhan fwyaf y disgyblion eu bod yn foesgar, yn rhannu'n dda gyda'i gilydd ac yn aros eu tro wrth iddynt gyflawni eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith cyfredol a blaenorol gydag aeddfedrwydd a brwdfrydedd. Maent yn mwynhau'r pynciau y maent yn eu hastudio ac, ar y cyfan, maent yn barod i weithio'n galed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan yn gadarnhaol yn eu dysgu ac yn setlo'n dda i'w tasgau. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer yn datblygu hyder a gwytnwch wrth wynebu eu heriau cwricwlaidd ac maent yn defnyddio'r strategaeth 'tri cyn fi' yn llwyddiannus wrth

wynebu anhawster â'u gwaith.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar farn pobl eraill ac yn ystyried safbwyntiau sy'n wahanol i'w rhai nhw yn dda, er enghraifft wrth drafod 'ydy gwir bwrpas Nadolig wedi newid?'.

Mae rhan fwyaf y disgyblion wedi dechrau cyfrannu'n effeithiol wrth gynnig syniadau diddorol am beth yr hoffent ei ddysgu.  Un enghraifft lle mae disgyblion wedi dylanwadu ar eu tasgau yw ym Mlwyddyn 4, lle maent yn tynnu ffotograffau o dai o Oes Fictoria yn y pentref yn hyderus fel rhan o'u heriau annibynnol.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dewis eu gweithgareddau'n hollol annibynnol.  Maent yn eu cwblhau, yn cadw cofnod ohonynt ar eu 'pasbort' ac yna'n symud ymlaen at y gweithgaredd nesaf yn ddiffwdan.  Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o ba mor dda y maent yn cyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i ddatblygu eu rôl i gynrychioli llais y disgyblion eraill.  O dan arweiniad y cyngor eco, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o gynaliadwyedd yn datblygu'n dda.  Trwy redeg siop ffrwythau masnach deg, mae'r cyngor yn annog y disgyblion i wneud penderfyniadau doeth ar sut i fwyta'n iach.  O ganlyniad, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut mae ymarfer corff rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd, iechyd a lles corfforol.  Yn ddiweddar, mae aelodau'r criw Cymraeg wedi cyflwyno gemau buarth sy'n cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg a wna'r disgyblion yn ystod amser egwyl.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.  Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi aros yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg eraill.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol ar amser yn y bore.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwella**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm pwrpasol i'w disgyblion sy'n ennyn diddordeb bron pob un yn dda.  Mae athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu ysgogol iddynt sy'n cynnwys ymweliadau addysgol amrywiol i fannau fel Amgueddfa Abertawe fel rhan o waith thema cyfnod allweddol 2 ar oes Fictoria.  Mae hyn yn llwyddo'n dda i ehangu gwybodaeth disgyblion am hanes yr ardal ehangach yn llwyddiannus.  Mae'r ysgol yn dechrau cynllunio'n fwriadus ar gyfer cyflwyno egwyddorion sylfaenol y cwricwlwm newydd i Gymru trwy osod heriau amrywiol i'r disgyblion.  Mae hyn yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n llwyddiannus iawn yn yr ysgol ac mae'r cyfleoedd niferus i ddatblygu llais y disgybl, ynghyd â'r cyfleoedd iddynt ddewis eu gweithgareddau ar ffurf heriau, yn gryfder.  Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r awyr agored gan ddisgyblion ac mae staff yn darparu profiadau gwerthfawr iddynt ddatblygu eu medrau cymdeithasol, creadigol a ffisegol yn effeithiol.  Maent yn cynnig ystod eang iawn o weithgareddau symbylus a chyfoethog i'r disgyblion sydd yn cyfrannu'n llwyddiannus at godi safonau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 yn addas.  Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd mewn

amrywiaeth o feysydd yn y cwricwlwm yn anghyson. Mae’r ysgol yn dechrau cynllunio ar gyfer bodloni gofynion y fframwaith cymhwysedd digidol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau addysgu athrawon bob amser yn canolbwyntio digon ar sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau mewn ffordd systematig sy’n adeiladu’n rhesymegol ar eu gwybodaeth flaenorol, yn arbennig mewn mathemateg a rhifedd.

Mae bron pob aelod staff yn cynnig model iaith pwrpasol wrth ddatblygu medrau Cymraeg y disgyblion ac maent yn darparu gweithgareddau buddiol i gyfoethogi eu gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth Cymru trwy ddathlu diwrnod T.Llew Jones ac wrth efelychu gwaith celf arlunwyr cyfoes o Gymru, er enghraifft. Fodd bynnag, priodol yn unig yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith ar gyfer y rheini yn y ffrwd Saesneg.

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng y disgyblion a’r staff i gyd. Mae arferion gorau’r addysgu yn seiliedig ar gynllunio manwl, holi llwyddiannus a pharatoi trwyadl i ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Mae’r staff, mewn tua hanner y dosbarthiadau, yn atgoffa’r disgyblion yn effeithiol am eu dysgu blaenorol ac yn cyflwyno amcanion dysgu a chyfarwyddiadau yn glir iddynt. Yn y dosbarthiadau hyn, mae’r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau sydd â lefel briodol o her i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion ac maent yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl disgyblion yn fedrus. Mae disgwyliadau uchel ganddynt a cheir nodau dysgu pendant i’r gwersi. Fodd bynnag, yn hanner arall y dosbarthiadau, mae safon yr addysgu yn anghyson. Lle mae'r addysgu’n lleiaf llwyddiannus, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o’r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni, ac nid ydynt yn addasu’r dysgu yn ddigon effeithiol i herio pob un ar y lefel briodol. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y eu dysgu. Yn ogystal, mae cyflymder mwyafrif y gwersi yn y dosbarthiadau hyn yn rhy araf.

Mae athrawon yn cynnig adborth llafar pwrpasol i’r disgyblion, ac ar y cyfan, mae’r sylwadau ysgrifenedig a’r strategaeth ‘gwyrdd gwych a glas gwella’ yn helpu disgyblion i wella eu gwaith yn effeithlon. Mae’r disgyblion yn dechrau asesu eu dysgu eu hunain yn addas.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae lefel uchel y gofal a'r cydweithredu rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda at eu lles. Mae ethos cadarnhaol yr ysgol yn cefnogi disgyblion yn effeithiol wrth ddatblygu eu medrau cymdeithasol a moesol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â nhw. Mae'r strategaethau cyfathrebu diweddaraf yn llwyddo’n dda i annog a chefnogi cyfranogiad uniongyrchol rhieni yn addysg eu plentyn, er enghraifft wrth rannu heriau gwaith cartref yn ymwneud â’r thema gyfredol. Mae’r gymdeithas rhieni yn cydweithio’n agos â’r ysgol a’r gymuned leol i drefnu gweithgareddau codi arian sydd yn llwyddo i gryfhau’r ethos teuluol yn effeithiol.

Mae’r ysgol wedi datblygu trefniadau addas dros amser ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae llawer o’r staff yn defnyddio’r wybodaeth hon yn briodol i gynllunio a darparu cymorth cynhwysfawr i ran fwyaf y disgyblion. Maent yn

mynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn eu medrau sylfaenol a lles yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn gwneud y defnydd gorau o'r trefniadau hyn i sicrhau bod disgyblion sy'n fwy abl yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Caiff disgyblion ag anghenion addysgol arbennig eu hadnabod yn gynnar. Mae cynlluniau addysg unigol yn canolbwyntio'n dda iawn ar yr unigolion ac yn nodi targedau ar gyfer gwella, sy'n cael eu rhannu'n bwrpasol â staff, rhieni a disgyblion. Mae staff yn monitro cynnydd tuag at y targedau hyn yn fuddiol ac yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da. Dyma un o gryfderau'r ysgol. Mae cyfraniad y cymorthyddion yn werthfawr iawn wrth weithio'n fedrus i roi ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol ar waith, er enghraifft wrth gyflwyno therapi adnodd adeiladu i ddatblygu medrau cymdeithasol grwpiau o ddisgyblion. Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol ag ystod o asiantaethau allanol sy'n darparu cymorth da i ddysgwyr.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r staff yn annog disgyblion i fwyta diet iach drwy ddarparu gweithgareddau yn y dosbarth. Gwneir defnydd da o ymwelwyr i ehangu profiadau celfyddydol y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt gydweithio ag artist o Gymru i greu murlun lliwgar ar 'Gadw'n Iach' yn y ffreutur. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn fuddiol ac yn codi eu hunanhyder.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn fwriadus. Mae'r ysgol yn cynnig nifer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngherddau, canu yng nghôr yr ysgol ac i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hyder a medrau cymdeithasol y disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Mae ymweliadau addysgol i leoedd diddorol fel ymweliad i'r amgueddfa yn Abertawe a'r penwythnos preswyl i wersyll yr Urdd yn Llangrannog yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes lleol a thu hwnt yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol. Trwy weithgareddau yn y dosbarth a gwasanaethau rheolaidd caiff disgyblion gyfle i fyfyrio ar y gwahaniaeth rhwng da a drwg drwy adrodd stori'r 'Siaced Fraith', er enghraifft.

Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau ar wahanol bwyllgorau fel y dewiniaid digidol a'r cyngor ysgol. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar les y disgyblion ac ar fywyd dyddiol yr ysgol. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae eu gweithredoedd ar y cyd yn cyfrannu at fudd ehangach y gymuned. Trwy weithgareddau niferus i gefnogi elusen sy'n bwysig i'r ysgol, adeiladwyd ardal heddwch er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i fyfyrio yn ystod amseroedd chwarae a chinio. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth y disgyblion o anghenion pobl sy'n llai ffodus na nhw.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Yn yr amser byr iawn ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi datblygu gweledigaeth

glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar greu amgylchedd gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith.  Mae hi wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni.

Mae'r pennaeth wedi mireinio'r gweithdrefnau rheolaethol yr ysgol yn briodol i adlewyrchu ei gofynion cyfredol.  Mae gan bob aelod staff ddealltwriaeth addas o'u rolau newydd o fewn yr ysgol ac mae'r llinellau atebolrwydd yn glir.  Mae'r pennaeth cynorthwyol wedi dechrau gweithio'n agos gyda'r pennaeth ar faterion ysgol gyfan ac mae hi'n datblygu ei rôl strategol ymhellach.  Mae'r staff yn cyfathrebu'n  effeithiol â'i gilydd ac yn cydweithio'n agos fel tîm.  Fodd bynnag, oherwydd newidiadau yn y strwythur staffio ac aildrefnu cyfrifoldebau, nid yw'r trefniadau newydd wedi cael digon o amser i wreiddio nac i gael effaith gadarnhaol ar gynnal a gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd pwrpasol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a staff cymorth.  Mae'r gweithdrefnau i ddatblygu staff yn cysylltu'n uniongyrchol â'u hamcanion rheoli perfformiad ac mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol.  Maent yn derbyn hyfforddiant mewnol a chyfleoedd i weithio gydag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer dda.  Mae'r cyfleoedd gwerthfawr hyn wedi arwain at addasu'r cynllunio hir dymor ac maent yn dechrau cryfhau llais y disgybl yn y ffordd yr hoffent ddysgu.

Mae gweithdrefnau cyfredol yr ysgol ar gyfer hunanwerthuso yn arwain at arfarniad lled gywir o'i pherfformiad presennol ac mae'n adnabod meysydd pwysig i'w gwella.  Mae staff, rhieni a llywodraethwyr yn cyfrannu'n briodol at y gweithdrefnau sy'n defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol fel dadansoddi data, arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion.  Fodd bynnag, dros amser, nid yw'r staff wedi mesur effaith y ddarpariaeth ar safonau'r disgyblion yn ddigon bwriadus.  Mae'r adroddiadau monitro diweddar yn onest iawn ac yn nodi bod disgwyliadau a safonau academaidd yn amrywio ar draws yr ysgol ac yn effeithio ar gywirdeb y data dros amser.  O ganlyniad,  mae cyfarfodydd staff wythnosol bellach yn rhoi ffocws clir ar flaenoriaethau'r ysgol.  Mae bellach ffocws clir ar edrych ar ddata a'r system i olrhain cynnydd disgyblion er mwyn datblygu dealltwriaeth y staff o ddeilliannau disgyblion ac i gynyddu eu hatebolrwydd am gynnydd y disgyblion yn eu dosbarth.  Trefnir hefyd gyfleoedd buddiol i athrawon o'r un cyfnod i gydgynllunio ac i graffu ar lyfrau ei gilydd.

Yn eu tro, mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r dystiolaeth a gasglwyd o'r gweithdrefnau hunanwerthuso.  Mae'r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau yn glir, gan gynnwys cyfrifoldeb am fonitro a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.  Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi cael amser i gysoni'r gwendidau yn yr addysgu a'r cynllunio ar draws yr ysgol, nac i wella holl fedrau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.  Mae'r staff wedi datblygu ardal allanol ysgogol i'r disgyblion ac mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gryf.  Mae gan yr ysgol gynlluniau priodol i ddatblygu'r fframwaith cymhwysedd digidol ac i hybu Cymreictod.  Mae'r pennaeth wedi dechrau rhoi ffocws effeithiol ar wella presenoldeb disgyblion, sydd eisoes yn dechrau gwella.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu rôl yn gydwybodol.  Mae ganddynt wybodaeth briodol am rediad yr ysgol o ddydd i

ddydd ac maent wedi dechrau datblygu eu dealltwriaeth am ddata'r ysgol. Maent bellach yn ymgymryd â theithiau dysgu yn fwy aml sy'n cyfoethogi eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn dosbarthiadau. Maent yn cynnig her bwrpasol am effaith y cyllid ar safonau a'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid ydynt hyd yma yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon trylwyr am ei pherfformiad.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o'r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd addas i hyrwyddo profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu allanol yn cynnwys ystod o offer pwrpasol ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol a chorfforol disgyblion yn llwyddiannus.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2020